Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru | Children's Legal Centre Wales

# Fframweithiau'r Gyfraith a Pholisi sy'n Berthnasol i Ddull Gweithredu sy'n Gefnogol o Hawliau Plant yng nghyswllt Tlodi Plant yng Nghymru

**Dr Rhian Croke a'r Athro Simon Hoffman (Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru ac Arsyllfa ar Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol), Ionawr 2025**

## Contents

1. Cyflwyniad ..... 2
2. Fframweithiau Hawliau Dynol Cyffredinol sy'n Berthnasol i Dlodi Plant ..... 3
3. Y DU a Chymru: Fframweithiau Cyfreithiol Cyffredinol sy'n Berthnasol i Dlodi Plant ..... 6
4. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ..... 11
5. Deddfwriaeth Cymru: Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ..... 13
6. Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Wladwriaeth sy'n Barti y DU ..... 16
7. Deddfwriaeth Cymru: Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ..... 19
8. Prif Fframweithiau Sefydliadol i fynd i'r afael â Thlodi Plant ..... 21
9. Dull Gweithredu sy'n Gefnogol o Hawliau Plant yng nghyswllt Tlodi Plant ..... 26

*Mae'r papur briffio hwn wedi'i fwriadu fel cyflwyniad i fframweithiau polisi a chyfraith berthnasol. Ni ddylid dibynnu arno fel cyfrif manwl o rwymedigaethau cyfreithiol.*

# 1. Cyflwyniad

Mae llawer o weithwyr proffesiynol wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi plant ond mae arnynt angen mwy o wybodaeth am fframweithiau cyfraith a pholisi ar hawliau dynol plant (hawliau plant) sy'n fframio eu gwaith. Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn gwneud gwaith rheng flaen rhagorol ar dlodi plant, ond yn ei chael yn anodd ennill ymrwymiad lefel uwch a strategol i fynd i'r afael â thlodi plant. Mewn rhai achosion, mae hyn er gwaethaf rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n galw am roi sylw i hawliau plant.

Mae asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir yn aml mewn sefyllfa dda i ddal cyrff cyhoeddus i gyfrif, ac i eiriol dros newid cadarnhaol i fynd i'r afael â thlodi plant. Ond i gyflawni'r dasg hon, mae arnynt angen mwy o wybodaeth am fframweithiau cyfraith a pholisi.

Mae'r papur briffio hwn yn cyflwyno'r fframweithiau mwyaf perthnasol a ddylai fod yn sail i gamau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant, a hynny drwy weithredu hawliau plant gyda chyfraith a pholisi. Byddwn yn defnyddio hawliau plant a hawliau dynol yn ehangach i graffu'n fanylach ar gamau gweithredu (neu ddiffyg gweithredu ar dlodi plant), gan ganolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder drwy hawlogaethau gwarantedig cyfreithiol a dyletswyddau y gellir dal cyrff cyhoeddus yn atebol amdanynt.

Ar lefel llywodraeth, mae Cymru wedi ymrwymo i hawliau dynol fel fframwaith ar gyfer polisi cyhoeddus, ac i hawliau plant fel sail i bob polisi cyhoeddus sy'n effeithio ar blant. Bydd y papur briffio hwn yn helpu cyrff cyhoeddus ac asiantaethau'r trydydd sector i ddeall y fframweithiau sy'n rhan annatod o'r Dull Gweithredu sy'n Gefnogol o Hawliau Plant i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.

Rydym wedi cynnwys hyperddolenni drwy gydol y papur briffio i gael gafael ar wybodaeth fanylach.

# 2. Fframweithiau Hawliau Dynol Cyffredinol sy'n Berthnasol i Dlodi Plant

Mae deall beth mae mynediad at gyfiawnder yn ei olygu yng nghyd-destun tlodi plant yng Nghymru yn dechrau drwy ddeall bod tlodi yn groes i hawliau dynol. Mae effeithiau tlodi yn ddinistriol ac yn niweidiol i unigolion a buddiannau'r holl ddynoliaeth, gan gynnwys plant. Mae hawliau dynol yn nodi gwarantau sylfaenol sy'n mynd i'r afael ag effaith tlodi ar anghenion unigol ac urddas unigolion.

Er nad oes hawl gyfreithiol gydnabyddedig i fyw heb dlodi mewn cyfraith hawliau dynol ryngwladol, mae agweddau ar gyfraith ryngwladol yn berthnasol iawn i dlodi – ac yn cadarnhau y dylai llywodraethau a chyrff cyhoeddus gymryd camau i fynd i'r afael â thlodi a gwrthdroi'r sefyllfa fel mater o'r flaenoriaeth uchaf. Bydd yr adran hon yn egluro'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain.

***Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR)***

Mae'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) yn nodi hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, y gellir ystyried pob un ohonynt yn berthnasol i dlodi mewn rhyw ffordd.

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESR) yn rhoi arweiniad ar weithio gydag ICESCR ac mae wedi nodi'r canlynol:

> 'Mae tlodi yn gyflwr dynol a nodweddir gan amddifadedd parhaus neu gronig o'r adnoddau, y galluoedd, y dewisiadau, y diogelwch a'r pŵer sy'n angenrheidiol i fwynhau safon byw ddigonol a hawliau sifil, diwylliannol, economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol eraill.' (E/C.12/2001/10, para. 8)

IESCR yw'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol cydnabyddedig y dylid ei gymhwyso i bob cam gweithredu i fynd i'r afael â thlodi. Mae'n gytuniad rhyngwladol y mae'r DU wedi'i lofnodi. Canlyniad hyn yw ei bod yn ofynnol i Lywodraeth y DU, llywodraethau

datganoledig ac yn wir pob corff cyhoeddus yn y DU, barchu, diogelu a chyflawni'r hawliau y mae'n ei warantu (gweler yr adran nesaf am esboniad o ystyr y termau hyn).

Rydym yn cynghori'n gryf bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes tlodi yn darllen yr ICESCR i werthfawrogi'n well y gwarantau sylfaenol (o ran adnoddau a gwasanaethau) a ddylai fod ar gael i bawb yng Nghymru.

Dyma rai enghreifftiau o hawliau ICESCR sy'n berthnasol i dlodi, yn gryno:

- Erthygl 9, yr hawl i gael nawdd cymdeithasol.
- Erthygl 11, yr hawl i safon byw ddigonol (bwyd, dillad a thai).
- Erthygl 12, yr hawl i'r safon iechyd uchaf posibl.
- Erthygl 13, yr hawl i addysg.

Mae ICESCR yn cyflwyno disgwyliadau clir ynghylch sut y dylai llywodraethau, a chyrff cyhoeddus yn gyffredinol, fynd ati i roi'r hawliau a warentir ar waith.

Yn gryno, dylent wneud y canlynol:  cymryd camau i wireddu hawliau'n raddol gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt, a gwneud hynny heb wahaniaethu o unrhyw fath o ran hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, eiddo, genedigaeth neu statws arall (gweler ICESCR Erthygl 2).

***Y Rhwymedigaeth i Barchu, Diogelu a Chyflawni Hawliau***

Mae'r DU wedi llofnodi ICESCR, ac felly mae disgwyl i bob llywodraeth yn y DU, yn ogystal â phob corff cyhoeddus, gymryd camau i barchu, diogelu a chyflawni'r hawliau y mae'n ei warantu. Mae ystyr clir i'r termau hyn mewn cyfraith hawliau dynol ryngwladol.

- Mae *parchu hawliau dynol* yn golygu peidio â gwneud unrhyw beth sy'n bygwth gallu unigolion i elwa ar hawliau dynol, gan gynnwys drwy waethygu tlodi.
- Mae *diogelu hawliau dynol* yn cynnwys cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddiogelu'r rheini sy'n byw mewn tlodi eithafol rhag gweithredoedd niweidiol neu esgeulustod gan drydydd partïon (e.e. busnes preifat) a allai fygwth neu beryglu eu hawliau dynol.

- Mae *cyflawni hawliau dynol* yn golygu cymryd camau cadarnhaol i hwyluso'r broses o elwa ar hawliau dynol, gan gynnwys dyrannu adnoddau i ddiwallu anghenion y rheini sy'n byw mewn tlodi.

I gael rhagor o wybodaeth am y termau hyn a'u perthnasedd i waith ar fynd i'r afael â thlodi, ewch i: Guiding Principles on Extreme Poverty, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol.

Er y rhagwelir y bydd llywodraethau a chyrff cyhoeddus i gyd yn parchu, yn diogelu ac yn cyflawni hawliau, bydd y ffyrdd y byddant yn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y pwerau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

***Cysylltiadau â Datblygu Cynaliadwy***

Mae'r ICESCR yn rhan o fframwaith mwy sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy. Mae gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng hawliau dynol, mynd i'r afael â thlodi a datblygu cynaliadwy yn cael eu trafod gan CESCR yn yr addewid *The Pledge to Leave No-one Behind* (21780E_C.12_2019_1_edited.pdf (un.org)).

Un o brif pwyntiau'r *Pledge to Leave No-one Behind* yw bod yr hawliau a nodir yn ICESCR yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi ac i gyflawni agenda datblygu cynaliadwy (gweler e.e. para.4 yr Addewid). Dylai unrhyw un sy'n gweithio ym maes tlodi ddarllen y ddogfen i werthfawrogi'n llawn sut mae sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn talu sylw manwl i'r ICESCR.

# 3. Y DU a Chymru: Fframweithiau Cyfreithiol Cyffredinol sy'n Berthnasol i Dlodi Plant

Dyma fframweithiau cyfreithiol y DU sydd fwyaf perthnasol i dlodi plant: Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998(HRA) .

***Deddf Cydraddoldeb 2010***

Mae'r 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol' (SED) o dan Ran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan y canlynol:

> 'Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn arwain at anghydraddoldebau o ran canlyniadau, ac mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i leihau'r anghydraddoldebau hyn.'

Daeth y ddyletswydd hon i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2021. Yr awdurdodau perthnasol yw:

- Gweinidogion Cymru.
- Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol.
- Bwrdd Iechyd Lleol.
- Ymddiriedolaeth y GIG.
- Awdurdodau Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu ar sail Cymru yn unig).
- Awdurdod Tân ac Achub.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Awdurdod Cyllid Cymru.

I weld canllawiau Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ewch yma.

Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, a fydd yn cynnwys y rheini sy'n profi effaith tlodi.

Nid yw'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn rhoi'r hawl i unigolion ddwyn achos yn erbyn corff cyhoeddus i honni eu bod wedi profi anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn 'ddyletswydd cyfraith gyhoeddus', sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gymryd camau priodol i gydymffurfio â'u dyletswydd. Os na fyddant yn gwneud hynny, efallai y byddant yn destun adolygiad barnwrol.

Er bod adolygiad barnwrol yn darparu llwybr posibl at atebolrwydd i gydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, mae'n fath anodd o her gyfreithiol, sy'n gofyn am gefnogaeth broffesiynol gyfreithiol, adnoddau ac amser i fynd ar ei drywydd.

Ffordd arall o ymdrin ag atebolrwydd yw defnyddio'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i dynnu sylw at anghydraddoldeb, a chwilio am ffyrdd o godi hyn yn gyhoeddus drwy eiriolaeth polisi. Gallai'r rhain gynnwys:

- Defnyddio dulliau cwyno.
- Codi'r mater gydag ombwdsmon neu gomisiynwyr perthnasol.
- Codi'r mater drwy fecanweithiau craffu perthnasol awdurdodau cyhoeddus.
- Codi'r mater ag aelodau'r Senedd o bwyllgorau perthnasol y Senedd.

***Deddf Hawliau Dynol 1998***

Mae Adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA 1998) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru (y DU) weithredu'n unol â rhwymedigaethau hawliau dynol dethol (sy'n deillio o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol), oni bai fod rhyw ddyletswydd arall (a osodir fel arfer gan ddeddfwriaeth) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud fel arall.

Dyma'r prif rwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i dlodi o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998:

- dylid sicrhau bod unigolion yn elwa ar hawliau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 heb wahaniaethu ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall (atodlen 1, rhan 1, erthygl 14).
- yr hawl i fyw (atodlen 1, rhan 1, erthygl 1).

- yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (atodlen 1, rhan 1, erthygl 8).
- yr hawl i gael addysg (atodlen 1, rhan 2, erthygl 2)

Mae'r ddyletswydd gyfreithiol yma'n uniongyrchol berthnasol, sy'n golygu os gall unigolyn, gan gynnwys plentyn, ddangos bod unrhyw un o'i hawliau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wedi eu torri, gall ddwyn achos gerbron llys (HRA 1998 a.7).

Er bod Deddf Hawliau Dynol 1998 yn darparu llwybr uniongyrchol at atebolrwydd drwy'r llysoedd, gall achosion cyfreithiol fod yn afresymol yn aml oherwydd, e.e. costau neu fethu cael gafael ar gyngor cyfreithiol.

Yn yr un modd â dyletswyddau cyfreithiol eraill, llwybr amgen at atebolrwydd am dorri dyletswyddau Deddf Hawliau Dynol 1998 yw tynnu sylw at anghydraddoldeb neu effaith tlodi, a chwilio am ffyrdd o godi hyn yn gyhoeddus drwy eiriolaeth polisi. Gallai'r rhain gynnwys:

- Defnyddio dulliau cwyno.
- Codi'r mater gydag ombwdsmon neu gomisiynwyr perthnasol.
- Codi'r mater drwy fecanweithiau craffu perthnasol awdurdodau cyhoeddus.
- Codi'r mater ag aelodau'r Senedd o bwyllgorau perthnasol y Senedd.

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ddeddfiadau ar gyfer y DU i gyd, ac maent yn berthnasol yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFG) yn ddeddfwriaeth a roddwyd ar waith yng Nghymru (gan y Senedd) sy'n berthnasol yng Nghymru yn unig.

I grynhoi, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni 'datblygu cynaliadwy' drwy ddilyn amcanion sydd wedi'u dylunio i fodloni saith nod Llesiant. Dyma'r nodau llesiant:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Dyma'r cyrff cyhoeddus perthnasol:

- Gweinidogion Cymru.
- Awdurdodau Lleol.
- Byrddau Iechyd Lleol.
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre.
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Awdurdodau Tân ac Achub.
- Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Amgueddfa Cymru.

Cafodd dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu hymestyn i wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn 2024:

- Qualifications Wales
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru

- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r hawl i unigolyn ddwyn achos yn erbyn corff cyhoeddus i honni e.e. ei fod wedi profi anghydraddoldeb, neu nad yw'n elwa ar bolisïau iechyd. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol yma yn 'ddyletswydd cyfraith gyhoeddus', sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gymryd camau priodol i gydymffurfio â'u dyletswydd. Os na fyddant yn gwneud hynny, efallai y byddant yn destun adolygiad barnwrol.

Fel y nodwyd uchod, mae cysylltiad cryf rhwng datblygu cynaliadwy, hawliau dynol a mynd i'r afael â thlodi sy'n berthnasol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy a llesiant yng Nghymru, gan gynnwys drwy osod amcanion llesiant.

O ran y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, mae adolygiad barnwrol yn darparu llwybr posibl at atebolrwydd am fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond byddai hyn yn gofyn am gefnogaeth broffesiynol gyfreithiol, adnoddau ac amser i fynd ar ei drywydd.

Ffordd arall o ymdrin ag atebolrwydd yw tynnu sylw at fethiant i gydnabod hawliau dynol perthnasol yn briodol wrth gynllunio llesiant, a chwilio am ffyrdd o godi hyn yn gyhoeddus drwy eiriolaeth polisi. Gallai'r rhain gynnwys:

- Defnyddio dulliau cwyno.
- Codi'r mater gydag ombwdsmon neu gomisiynwyr perthnasol.
- Codi'r mater drwy fecanweithiau craffu perthnasol awdurdodau cyhoeddus.
- Codi'r mater ag aelodau'r Senedd o bwyllgorau perthnasol y Senedd.

# 4. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi'r hawliau dynol sylfaenol a warentir ar gyfer pob plentyn (dan 17 oed neu iau) sy'n berthnasol i dlodi plant.

Mae statws CCUHP yn y DU yr un fath â statws ICESCR: mae'r DU yn rhan o CCUHP, a disgwylir i bob llywodraeth a chorff cyhoeddus yn y DU gyfrannu at wireddu'r hawliau y mae'n ei gynnwys drwy barchu, diogelu a chyflawni hawliau (gweler uchod).

Mae llawer o hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n berthnasol i dlodi plant. Dim ond cyfeirio'n sydyn at y rhain y gallwn yn y briff hwn. Mae CCUHP yn darparu lens y gellir ei defnyddio i ystyried tlodi plant yn aml-ddimensiwn, gan gwmpasu nid yn unig incwm isel ond hefyd fathau eraill o amddifadedd, colli urddas a'r cyfle i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Rydym yn argymell yn gryf bod unrhyw un sy'n gweithio ar dlodi a thlodi plant yn darllen CCUHP yn llawn.

Mae pedair egwyddor gyffredinol CCUHP yn allweddol i weithredu'r Confensiwn yn ei gyfanrwydd. Sef:

- Erthygl 2, yr hawl i elwa ar hawliau heb wahaniaethu o unrhyw fath, waeth beth fo hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, genedigaeth neu statws arall y plentyn, ei riant neu warcheidwad cyfreithiol.
- Erthygl 3, ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant, boed yn cael ei chyflawni gan sefydliadau cyhoeddus neu breifat, bydd lles gorau'r plentyn yn brif ystyriaeth.
- Erthygl 6, yr hawl i fyw ac i oroesi, a datblygu i'w llawn botensial.
- Erthygl 12, rhaid rhoi sylw dyledus i farn y plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn; a hynny ym mhob mater sy'n effeithio arno.

Gyda'r uchod mewn golwg, mae hawliau eraill sy'n arwyddocaol mewn perthynas â thlodi plant, gallai'r rhain gynnwys:

- Erthygl 18 (2), yr hawl i gael cymorth priodol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol i gynnal eu cyfrifoldebau magu plant.
- Erthygl 24, yr hawl i'r safon iechyd uchaf posibl.
- Erthygl 26, yr hawl i elwa ar nawdd cymdeithasol.
- Erthygl 27, yr hawl i safon byw ddigonol.
- Erthygl 28, yr hawl i addysg.
- Erthygl 31, yr hawl i hamdden a chwaraeon.
- Erthygl 32, hawl y plentyn i gael ei amddiffyn rhag camfanteisio economaidd.

Mae'r detholiad hwn yn dangos perthnasedd hawliau dynol rhyngwladol, a CCUHP yn benodol, i weithredu ar dlodi plant yng Nghymru: mae rhoi hawliau CCUHP ar waith yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu polisi ac eiriolaeth polisi i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi plant (gweler adroddiad yr Uwchgynhadledd Tlodi Plant a baratowyd gan yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru a Phlant yng Nghymru), sy'n disgrifio hawliau perthnasol yn fwy manwl.

Mae CCUHP yn arbennig o arwyddocaol yng Nghymru, fel sy'n cael ei drafod yn yr adran nesaf.

# 5. Deddfwriaeth Cymru: Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Yng Nghymru, mae CCUHP yn rhan o Gyfraith Cymru, o dan 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011'. ('y Mesur Hawliau Plant'). Mae Adran 1 y Mesur Hawliau Plant yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau, gan roi 'sylw dyledus' i Ran 1 CCUHP ac i erthyglau penodol o brotocolau dewisol CCUHP.

O dan y Mesur Hawliau Plant, pan fydd Gweinidogion yn arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn golygu bod yn rhaid rhoi ystyriaeth briodol i holl erthyglau CCUHP, gan gynnwys yr hawliau a grybwyllwyd yn yr adran flaenoro. Bydd hyn yn cynnwys: llunio polisïau, cyflwyno deddfwriaethau, gwneud penderfyniadau cyllidebol.

Mae'n bwysig cydnabod bod y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol i swyddogion Llywodraeth Cymru pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.

O dan Adran 2 y Mesur Hawliau Plant, rhaid i Weinidogion Cymru lunio Cynllun Plant sy'n nodi'r trefniadau y maent wedi'u gwneud, neu'n bwriadu eu gwneud, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd o dan adran 1.

Mae'r Mesur Hawliau Plant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad bob 5 mlynedd ar sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus (Adran 4 (1)). Fodd bynnag, er mwyn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi ei hadroddiad cydymffurfio bob 2.5 mlynedd (Gweler Cynllun Plant 2021, t.16). Gelwir yr adroddiad yn 'Adroddiad Cydymffurfio'.

Mae'n ofynnol hefyd i Lywodraeth Cymru ystyried ailedrych ar y Cynllun Plant a'i ail-wneud ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gweler Adran 2 (4)).

Wrth ailedrych ar y Cynllun Plant neu ei ail-wneud o dan adran 3, yn ogystal â rhoi sylw i unrhyw adroddiad neu argymhellion gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc a Chomisiynydd Plant Cymru (Adran 3 (4)).

Fel rhan o'r gofyniad i roi sylw dyledus, gwnaed ymrwymiad yn y Cynllun Plant i Weinidogion Llywodraeth Cymru gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i asesu effaith polisi neu gynnig deddfwriaethol ar hawliau plant. Nid yw CRIA yn orfodol ond dyma'r prif offeryn ar gyfer cyflawni dyletswyddau Gweinidogol mewn perthynas â hawliau plant.

Fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, rhaid ystyried mynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol a ganfuwyd yn sgil unrhyw gynnig ar gyfer cyfraith neu bolisi ar hawliau plant a lliniaru ar y rhain (gan gynnwys hawliau plant mewn perthynas â thlodi plant), a pha gamau y gellir eu cymryd i wella gallu plant i ddefnyddio eu hawliau.

Cynhelir CRIA fel rhan o broses Asesiad o Effaith Integredig Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiadau hyn i fod i gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo tryloywder. Os nad oes Asesiad o'r fath wedi cael ei gynnal fel rhan o Asesiad o Effaith Integredig, mae'n rhaid i swyddogion gofnodi pam.

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n unol â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), bydd hyn yn golygu eu bod yn gweithredu'n anghyfreithlon.

Nid yw'r Mesur Hawliau Plant yn rhoi'r hawl i unigolion ddwyn achos yn erbyn Gweinidogion yn honni bod eu hawliau dan CCUHP wedi cael eu torri. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol o dan y Mesur Hawliau Plant yn 'ddyletswydd cyfraith gyhoeddus', sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gymryd camau priodol i gydymffurfio â'u dyletswydd, gan gynnwys cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Os na fyddant yn gwneud hynny, efallai y byddant yn destun adolygiad barnwrol.

Er bod adolygiad barnwrol yn darparu llwybr posibl at atebolrwydd i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus, mae'n fath anodd o her gyfreithiol, sy'n gofyn am gefnogaeth broffesiynol gyfreithiol, adnoddau ac amser i fynd ar ei drywydd.

Ffordd arall o ymdrin ag atebolrwydd yw tynnu sylw at fethiant i gydnabod hawliau dynol perthnasol yn briodol wrth gynllunio llesiant, a chwilio am ffyrdd o godi hyn yn gyhoeddus drwy eiriolaeth polisi. Gallai'r rhain gynnwys:

- Defnyddio dulliau cwyno.
- Codi'r mater ag aelodau'r Senedd o bwyllgorau perthnasol y Senedd.

Ers hynny, mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus wedi cael ei hymestyn i awdurdodau cyhoeddus a enwir sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus ar wahân ym meysydd gofal cymdeithasol ac addysg drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Yn yr un modd, dylid dehongli'r ddyletswydd i roi sylw dyledus, wrth ei chymhwyso i awdurdodau perthnasol neu unigolion sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth arall a grybwyllir, fel un sy'n galw am roi ystyriaeth briodol i'r hawliau sydd yn CCUHP.

# 6. Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Wladwriaeth sy'n Barti y DU

Fel rhan o broses adrodd CCUHP mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, corff o 18 o arbenigwyr rhyngwladol, yn gwahodd tystiolaeth bob 5 mlynedd ynghylch gweithredu CCUHP yn y DU (fel rhan o fonitro CCUHP yn fyd-eang). Cyflwynir tystiolaeth gan y llywodraeth a chan gyrff anllywodraethol, Plant a Chomisiynwyr Plant a sefydliadau hawliau dynol annibynnol eraill. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedyn yn nodi meysydd sy'n peri pryder, y ffactorau a'r anawsterau sy'n rhwystro gweithredu CCUHP yn y DU, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Mewn perthynas â Gwladwriaeth sy'n Barti y DU a gweinyddiaethau datganoledig, mae tlodi plant wedi bod yn bryder cyson i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ym mhob cylch adrodd ers i Wladwriaeth sy'n Barti y DU ei gadarnhau yn 1992. Nid yw'r Sylwadau Terfynol yr adroddwyd arnynt yn ddiweddar ym mis Mehefin 2023 yn wahanol. Mae sawl argymhelliad yn y Sylwadau Terfynol yn codi ystyriaethau pwysig ar gyfer tlodi plant.

Un o argymhellion cyffredinol y Pwyllgor, sy'n arwyddocaol, yw y dylai CCUHP gael ei ymgorffori'n uniongyrchol yn y gyfraith er mwyn ymgorffori hawliau economaidd a chymdeithasol yn gadarnhaol a darparu atebion ar gyfer torri'r hawliau hyn mewn llys barn (para 8 (a)).

Mewn perthynas â'r Sylwadau Terfynol eraill sy'n ymwneud â thlodi, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn nodi ei bryder dwys ynghylch y nifer fawr o blant sy'n byw mewn tlodi, ac ynghylch ansicrwydd bwyd a digartrefedd. Mae'n argymell bod y Wladwriaeth sy'n Barti yn y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwneud y canlynol:

- 11 (a) Gweithredu system olrhain ar gyfer dyrannu, defnyddio a monitro adnoddau ar gyfer plant, gyda golwg ar ddileu gwahaniaethau a sicrhau tegwch (h.y. Cyllidebu ar gyfer hawliau plant) ac asesu sut mae buddsoddiadau ym mhob sector yn gwasanaethu buddiannau gorau plant;

- 11 (b) Cyflwyno dyraniadau cyllidebol ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig a sicrhau nad yw mesurau cyni yn effeithio ar blant;
- 11 (c) Sicrhau, mewn sefyllfaoedd o argyfwng economaidd, nad yw mesurau atchwel yn cael eu cymryd (mewn geiriau eraill, ni ddylai Gwladwriaethau sy'n Bartïon ganiatáu i lefel bresennol y mwynhad o hawliau plant ddirywio) heb fodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff 31 o sylw cyffredinol y Pwyllgor Rhif 19 (2016) ar gyllidebu cyhoeddus ar gyfer gwireddu hawliau plant, gan gynnwys bod plant yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â mesurau o'r fath;
- 41(e) Cryfhau mesurau i fynd i'r afael â diffyg maeth plant, ansicrwydd bwyd a thueddiadau cynyddol mewn gorbwysau a gordewdra, gan gynnwys y canlynol: (i) sicrhau y gall pob plentyn gael bwyd maethlon a lleihau eu dibyniaeth ar fanciau bwyd, beth bynnag fo'u statws mudo hwy neu eu rhieni; (ii) ehangu'r rhaglen prydau ysgol am ddim i bob plentyn sydd mewn sefyllfa ddifreintiedig, gan gynnwys plant y mae eu rhieni'n derbyn Credyd Cynhwysol; (iii) mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ansicrwydd bwyd, gan gynnwys tlodi; (iv) darparu gwasanaethau maeth mewn ysgolion a chymunedau; a (v) hybu ffyrdd iach o fyw a gweithgarwch corfforol;
- 46(a) Datblygu neu gryfhau polisïau presennol, gyda thargedau clir, dangosyddion mesuradwy a dulliau monitro ac atebolrwydd cadarn, i roi terfyn ar dlodi plant a sicrhau bod pob plentyn yn cael safon byw ddigonol, gan gynnwys drwy gynyddu manteision cymdeithasol i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw a diddymu'r cyfyngiad dau blentyn a'r cap budd-daliadau ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol.
- 46 (b) Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd ymysg plant, cryfhau mesurau i ddileu cynlluniau llety dros dro a chynlluniau llety wrth gefn a chynyddu'n sylweddol nifer y tai cymdeithasol digonol a hirdymor sydd ar gael i deuluoedd mewn angen, gyda golwg ar sicrhau bod pob plentyn yn byw mewn tŷ fforddiadwy o ansawdd;
- 46 (c) Sicrhau mai buddiannau gorau'r plentyn sy'n cael eu hystyried yn bennaf ym mhob mater sy'n ymwneud â throi allan, nad yw troi allan yn cael ei dargedu at deuluoedd sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol a bod dewisiadau amgen digonol ar gael bob amser ym mhob achos o droi allan;

- 46 (d) Sicrhau bod mesurau i fynd i'r afael â thlodi yn cydymffurfio â dull seiliedig ar hawliau plant ac yn canolbwyntio'n benodol ar blant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, yn enwedig plant rhieni sengl, plant ag anableddau, plant Roma, sipsiwn a theithwyr a phlant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol eraill, plant sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid, plant mewn teuluoedd mawr a phlant sy'n gadael gofal.

Mae'r Sylwadau Terfynol yn fframwaith defnyddiol ac awdurdodol ar gyfer gweithredu ar hawliau plant. Maent yn darparu set o amcanion ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio ym maes tlodi plant, boed hynny yng nghyd-destun cynllunio a darparu gwasanaethau, neu fel unigolion neu eiriolwyr polisi.

Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion yn y Sylwadau Terfynol ym mis Gorffennaf 2024.

# 7. Deddfwriaeth Cymru: Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfrannu at ddileu tlodi plant (Adran 1). Yn wreiddiol, roedd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys targed deddfwriaethol o ddileu tlodi plant erbyn 2020, a rhoddwyd y gorau i'r targed hwn yn 2016. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig iawn nad lleihau yn unig yw'r ymrwymiad yn y Mesur Plant a Theuluoedd, ond cyfrannu at ddileu tlodi plant.

- Adran 1: Mae'n nodi 13 nod ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant, ac mae'r rhain yn cynnwys nodau sy'n ymwneud ag incwm yr aelwyd, amddifadedd materol a ffactorau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r hyn sy'n achosi tlodi plant.
- Adran 2: Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth i ddileu tlodi plant.
- Adran 3 (6) . Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hefyd bob trydedd blwyddyn (ar ôl 2013) i gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o'r graddau y mae amcanion eu strategaeth wedi cyfrannu at ddileu tlodi plant.

Yn 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tlodi Plant.ddiwygiedig.

Y tro diwethaf i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad cynnydd tair blynedd yn unol ag Adran 3 (6 ) y Mesur Plant a Theuluoedd oedd ym mis Rhagfyr 2022. Bydd yn cyhoeddi ei hadroddiad cynnydd nesaf yn 2025.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith i fonitro effaith ei dull o ymdrin â thlodi plant.

O dan adran 4 y Mesur Plant a Theuluoedd, gall awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd i gyhoeddi strategaeth drwy ei chynnwys yn eu cynllun llesiant lleol a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o dan adran 39 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: ond dim ond os yw strategaeth yr awdurdod yn rhan annatod o'r cynllun hwnnw.

Mae Adran 12 y Mesur yn dweud bod rhaid i awdurdodau wneud trefniadau sy'n addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant mewn penderfyniadau gan yr awdurdod a allai effeithio arnynt, rhaid iddynt gyhoeddi gwybodaeth am eu trefniadau a chadw'r wybodaeth yn gyfoes. Ategir y ddyletswydd hon gan y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r egwyddor cyfranogiad fel y nodir yn y Dull Gweithredu ar Hawliau Plant

# 8. Prif Fframweithiau Sefydliadol i fynd i'r afael â Thlodi Plant

Mae'r adran hon yn trafod y prif strwythurau (mecanweithiau) y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi plant drwy bolisi a gweithredu.

***Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus***

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu sefydlu fel fframweithiau cyflawni traws-sefydliadol i gydlynu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddylanwadu ar bolisïau a chamau gweithredu sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant, llesiant poblogaethau lleol, lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol a mynd i'r afael â hawliau plant.

Dyma'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus :

- Awdurdod Lleol
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Awdurdod Tân ac Achub.
- Chyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ogystal, gwahoddir y canlynol i gymryd rhan:

- Gweinidogion Cymru.
- Prif Gwnstabliaid.
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.
- Gwasanaethau Prawf perthnasol.
- O leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol.

Fel y cyfeirir ato uchod, ac mewn canllawiau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n amlwg ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ac 'awdurdodau eraill yng Nghymru' baratoi strategaethau sy'n bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi ym Mesur Plant a Theuluoedd

(Cymru) 2010 ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi. Fodd bynnag, gallant yn awr gyflawni'r ddyletswydd hon drwy'r cynllun llesiant lleol (t.t 136 p. 26 y canllawiau).

Mae'r canllawiau yn gwneud y pwynt pwysig canlynol, sef: fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun llesiant lleol ac wrth ddadansoddi llesiant, rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y canlynol:

> 'Plant, sef pobl dan 18 oed, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r effaith mae hyn yn ei gael ar eu bywydau a'u llesiant cyffredinol; plant sy'n ddigartref, ceiswyr lloches, Sipsiwn a Theithwyr neu blant sy'n dioddef neu sy'n dyst i gam-drin domestig. Gallai byrddau elwa hefyd ar gymryd asesiadau effaith ar hawliau plant i ystyriaeth (ac ystyried y graddau y mae tlodi yn rhwystr i wireddu hawliau plant), wrth asesu anghenion.' (pt C tudalen 15 y canllwiau).

Dylai'r cynllun llesiant lleol sicrhau bod hawliau plant yn sail iddo:

> 'Mae llawer iawn o waith pwysig wedi ei wneud dros y degawd diwethaf i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod a'u parchu a bod eu llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, gan arwain at wasanaethau a chymorth priodol ac effeithiol. Dylai cynllun llesiant lleol ddatblygu ar y gwaith hwn, gan gadw ffocws cryf ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol, gyda CCUHP a'r Saith Nod Craidd fel y datganiad sylfaenol o egwyddorion y seilir y canlyniadau hyn arnynt.'

Mae paratoi cynllun llesiant lleol yn rhoi cyfle i fyrddau:

> 'Gryfhau eu dull cydweithredol o ymdrin â thlodi. Mae Gweinidogion Cymru'n credu y dylai'r bwrdd ystyried y gwahanol agweddau ar dlodi, fel tlodi plant, a sut mae'r agweddau hyn yn cysylltu â'r nodau llesiant wrth nodi ei amcanion lleol. Nid yw trechu tlodi yn ymwneud ag incwm yn unig, mae'n ymwneud â nifer o ganlyniadau gwahanol, gan gynnwys iechyd, addysg, cyflogaeth, sgiliau a chyfle cyfartal.

> Lle bwriedir i amcanion lleol a chamau gweithredu lleol wneud cyfraniad at ymdrin ag anghenion plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi gydag incwm isel, byddai o gymorth pe gallai'r rhain gael eu gwneud yn eglur.' (pt 120-121 t. 23 y canllawiau)

Mae'r canllawiau hyn yn nodi gwybodaeth ddefnyddiol er mwyn i gyrff cyhoeddus ddeall eu rhwymedigaethau o ran mynd i'r afael â thlodi plant mewn Cynlluniau Llesiant Lleol, yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol i asiantaethau'r trydydd sector a allai fod eisiau dal cyrff cyhoeddus i gyfrif er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn.

***Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol***

Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd rôl i'w chwarae o ran mynd i'r afael â thlodi plant ac maent wedi cael eu sefydlu fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i wneud y canlynol:

- Gwella llesiant y boblogaeth.
- Gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu.

Rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wneud y canlynol:

- Cynhyrchu asesiadau rhanbarthol o'r boblogaeth a llunio cynllun ardal rhanbarthol.
- Darparu adroddiad blynyddol rhanbarthol.
- Dangos cydgynhyrchu ac ymgysylltu rhwng dinasyddion.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi sylw dyledus i CCUHP wrth arfer eu holl swyddogaethau (Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). O ganlyniad, dylent fod yn ystyried yr effaith ar hawliau mewn perthynas â thlodi ym mhopeth a wnânt, a dylent ymgynghori a chydgynhyrchu eu hasesiadau gyda phlant a chynllunio adroddiadau â hwy.

Mae 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys.

***Cyd-bwyllgorau Corfforedig:***

Sefydlwyd Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau yn 2022 ac mae ganddynt rôl i'w chwarae o ran mynd i'r afael â thlodi plant. Dylai pob Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried y ffordd orau o gyflawni ei ddyletswyddau yn y sector cyhoeddus a sut y bydd yn galluogi, yn diogelu ac yn adeiladu ar arferion ei gynghorau cyfansoddol, gan ystyried ei amgylchiadau unigryw ei hun.

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig canlynol drwy reoliadau ar 1 Ebrill 2021:

- Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.
- Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru.
- Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru.
- Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

O ran perthnasedd i Dlodi Plant, dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gwneud y canlynol:

- Monitro ac asesu i ba raddau y maent yn cyflawni amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ((dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).
- Ymateb i ffyniant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn ei ardal; creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif ac ymagwedd ehangach at ei waith; ac ystyried cefndiroedd ac amgylchiadau, rhyw, oedran ac amrywiaeth ddiwylliannol er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn well (dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- Rhoi sylw dyledus, wrth wneud penderfyniadau strategol, i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol (yr SED a drafodir uchod).

Mae hefyd yn glir o reoliad diwygio bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hychwanegu at y rhestr o awdurdodau perthnasol y mae'n ofynnol iddynt wneud a dangos eu cyfraniad at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Felly, bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth.

# 9. Dull Gweithredu sy'n Gefnogol o Hawliau Plant yng nghyswllt Tlodi Plant

Mae Dull Gweithredu sy'n gefnogol o Hawliau Plant yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i weithio tuag at gyflawni eu dyletswyddau statudol, gan gynnwys y rheini a amlinellir yn y ddogfen hon.

Yn 2016, roedd Comisiynydd Plant Cymru wedi comisiynu'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant ym Mhrifysgol Abertawe i ddatblygu Dull Gweithredu ar Hawliau Plant egwyddorol ac ymarferol i'w ddefnyddio gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Dull Gweithredu a ddatblygwyd gan yr Arsyllfa yn ffordd o weithio sy'n hyrwyddo ffordd well o weithredu hawliau plant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau canllawiau dwyieithog, rhad ac am ddim o'r enw 'Dull Hawliau Plant' sy'n rhoi cyngor, enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos i ddangos sut i roi Dull Gweithredu ar Hawliau Plant ar waith. Ers hynny mae'r Dull Gweithredu ar Hawliau Plant a'r 'Dull Hawliau Plant' wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn ei Chynllun Hawliau Plant a'i 'Hadroddiad Cydymffurfio' sy'n nodi'r camau sydd wedi cael eu cymryd i roi sylw dyledus i hawliau plant ym mholisïau a chamau gweithredu'r llywodraeth yng Nghymru. Mae'r adnoddau hyn i gyd ar gael ar wefan y Comisiynydd, www.complantcymru.org.uk/

Gyda chefnogaeth Dr Rhian Croke a'r Athro Simon Hoffman o'r Arsyllfa, mae'r Comisiynydd Plant wedi datblygu canllawiau ar weithredu Dull Gweithredu ar Hawliau Plant drwy bolisïau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Gallwch gael gafael ar y canllawiau yma.